## Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant: Cynllun Gweithredu yn ymwneud ag Adolygiad Rhannol yr ASA ar Ganolfan Ddysgu Birmingham Mehefin 2019 *(<u>llofnodwyd gan y Senedd ei fod wedi'i gwblhau ar 10 Chwefror 2021</u>)*

*** Diweddariad statws -** rhowch ddiweddariad ar y statws gan nodi mis/blwyddyn y diweddariad (MM/BBBB). Hefyd defnyddiwch godau lliw ar gyfer cell y diweddariad statws fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| (gwyrdd) | Cwblhawyd y cam gweithredu |
| (ambr) | Cam gweithredu yn parhau/yn cadw at amserlen y dyddiad terfynol |
| (coch) | Dim cynnydd hyd yn hyn/ar hyn o bryd yn rhedeg yn hwyr |

| | Nodweddion a ganmolwyd | Camau i'w cymryd | Dyddiad Targed | Pwyllgor | Gweithredir gan | Deilliannau arfaethedig | Adroddiad a gwerthusiad | Diweddariad statws* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cymorth personol i fyfyrwyr trwy gydol taith y myfyrwyr – gan gynnwys mecanweithiau ar gyfer paratoi, cymdeithasu, cynefino a chofrestru myfyrwyr. | Bydd y Brifysgol yn parhau i wella'r cymorth personol i fyfyrwyr a bydd y camau gweithredu yn y maes hwn yn cynnwys:<br><br>Treialu mentora gan gymheiriaid i ddarparu cymorth personol ychwanegol (gyda phwyslais ar gymorth pontio) ac i barhau i ddatblygu trefniadau cynefino sy'n mynd i'r afael ag anghenion | ~~30 Mehefin 2020~~ Newidiwyd i 30 Hydref 2020 | PPM | Profost (Llundain a Birmingham), Rheolwr Academaidd a Chanolfan | Cynllun treialu mentora gan gymheiriaid wedi'i gyflwyno yn Birmingham yn rhan o gynllun treialu cyffredinol y Brifysgol | Adroddiad i'r PPM ym mis Hydref 2020 | (gwyrdd) Bellach mae CDdB wedi diweddaru'i chynlluniau cadw myfyrwyr yn ffurfiol mewn cydnabyddiaeth o'r addasiadau mewn cymorth i fyfyrwyr oedd yn ofynnol yn sgil Covid-19. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | myfyrwyr unigol | | | | | | |
| 2 | Camau a gymerwyd i addasu darpariaeth rhaglenni i sicrhau ymgysylltu effeithiol gan gorff y myfyrwyr. | Mae'r Brifysgol yn bwriadu parhau â'r agweddau hyn ar ei gwaith ac mae sesiynau DPP â ffocws wedi'u cynnig i'r holl staff mewn meysydd allweddol sy'n canolbwyntio ar ymgysylltiad myfyrwyr â'u hastudiaethau. | Amh | | | | | |
| | **Argymhellion** | **Camau i'w cymryd** | **Dyddiad Targed** | **Pwyllgor** | **Gweithredir gan** | **Deilliannau arfaethedig** | **Adroddiad a gwerthusiad** | **Diweddariad statws*** |
| 3 | Bod y Brifysgol yn rhoi mecanweithiau yn eu lle i gryfhau'r sicrwydd bod safonau academaidd y dyfarniadau ar wahanol safleoedd yn gymaradwy. | Gweithredu'r rôl newydd 'Adolygydd Rhaglen Allanol' (ARhA) a ychwanegwyd at Bennod 4 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd 2019/20 o ganlyniad i godi'r mater hwn ym Mehefin 2019. | 30 Mehefin 2020 **Gohiriwyd oherwydd Covid-19** | Pwyllgor Safonau Academaidd (PSA) | PIG Cysylltiol (Profiad Academaidd) | Bydd yr ARhA yn darparu haen ychwanegol o oruchwyliaeth i unrhyw raglenni sy'n cael eu darparu mewn lleoliadau lluosog a/neu i garfannau lluosog lle nad yw'n bosibl penodi un Arholwr Allanol. Y camau gweithredu penodol yw:<br>• ARhA wedi'u penodi yn unol â'r rheoliadau newydd | Adroddiad trosolwg i'r PSA Mehefin 2020 ac Adroddiad blynyddol i'r Senedd **Gohiriwyd oherwydd Covid-19** | Derbyniwyd adroddiad yr ARhA. Roedd yr ARhA a swyddog o'r Swyddfa Academaidd yn bresennol ym Mwrdd Rhaglenni TystAU ar 05.11.20 i'r ARhA gyflwyno'i adroddiad i'r Tîm. Yn sgil adfyfyrio ar y cynllun peilot hwn, teimlid |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | • Adroddiad wedi'i lunio gan yr ARhA a'i drafod yn y PSA | | yng ngoleuni'r amrywiaeth eang o raglenni sy'n dod dan y cylch gorchwyl hwn, gellid defnyddio dulliau eraill o drosolwg ychwanegol yn fwy effeithiol na'r broses ARhA a dreialwyd. Cytunwyd i ddiwygio Pennod 4 i ddileu cyfeiriadau ar rôl yr ARhA er mwyn darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol. Gweler yr adroddiad i'r Senedd ar 10.02.2021 ynghylch diwygio Pennod 4. |
| | | Sicrhau bod y Bwrdd Rhaglenni TystAU yn ystyried materion yn ymwneud â chymaroldeb safonau | 30 Mehefin 2020 | Bwrdd Rhaglenni TystAU | Cadeirydd y Bwrdd Rhaglenni TystAU | Cymaroldeb safonau'n cael ei fonitro a'i ddangos gan y Bwrdd Rhaglenni | Adroddir ar gofnodion a phwyntiau gweithredu'r Bwrdd | Cynhaliwyd BRh 29/11/19 (CDdB), 03/04/20 (LC), 16/07/20 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ym mhob cyfarfod. | | | | | Rhaglenni TystAU i bob cyfarfod o'r PSA | (Abertawe). Mae'r nesaf wedi'i drefnu am 05/11/20 (CDdB). |
| | | PSA i ddadansoddi ABRh y rhaglenni sydd wedi'u heffeithio i sicrhau bod yr adrodd ar safonau academaidd yn gyfannol. | 30 Mehefin 2020 | PSA | Cadeirydd y PSA (PIG Cysylltiol (Profiad Academaidd) | Dull cyson o adrodd ar draws lleoliadau darparu TystAU | Dogfennaeth i Gyfarfod Monitro Blynyddol y PSA, Mawrth 2020 | Addaswyd templed ac arferion yr ABRh ar gyfer 2019/20 (i ddadansoddi blwyddyn academaidd 18/19) er mwyn sicrhau dadansoddiad cyfannol ar draws y safle. |
| 4 | Bod y Brifysgol yn sicrhau gwell eglurder o ran y wybodaeth a roddir i fyfyrwyr am argaeledd a natur y Dystysgrif Addysg Uwch mewn Rheolaeth Gwestai Rhyngwladol. | Nid yw Canolfan Ddysgu Birmingham yn recriwtio i'r rhaglen TystAU Rheolaeth Gwestai Rhyngwladol ar hyn o bryd ac mae wedi'i dileu o wefan y Ganolfan. Adolygwyd deunydd marchnata'r rhaglen yn dilyn ymweliad yr ASA i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'n gywir ble mae'r rhaglen yn cael ei darparu, gan gynnwys y defnydd o leoliadau a'u natur. | | | | | | Mae'r rhaglen yn parhau i beidio â recriwtio yng CDdB |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ymgymryd ag archwiliad dilynol o'r holl gyhoeddusrwydd i sicrhau cywirdeb. | 31 Ionawr 2020 | Bwrdd Disgyblaeth Academaidd | Rheolwr y Rhaglen | Gwybodaeth farchnata gywir wedi'i chyhoeddi ar y wefan. | Adroddiad i Fwrdd yr Athrofa Rheolaeth ac Iechyd | |
| 5 | Bod y Brifysgol yn systematig yn casglu ac yn dadansoddi data boddhad myfyrwyr ar lefel modwl a rhaglen yng Nghanolfan Ddysgu Birmingham. | Sicrhau bod yr holiadur modwl yn cael ei weithredu ar ddiwedd pob modwl ar gyfer pob carfan | 30 Mehefin 2020 | Bwrdd Disgyblaeth Academaidd | Rheolwr Academaidd a Chanolfan | Gwell cyfraddau ymateb i'r holiadur modwl. | Adroddir am gynnydd ar y mater hwn i'r PSA trwy strwythur adrodd y Bwrdd Rhaglenni TystAU. | Mae'r HRh ar-lein bellach wedi'i roi ar waith ac mae data'n cael eu casglu. Canlyniadau cynnar yw bod cyfraddau ymgysylltu'n llawer uwch na gyda'r system HRh flaenorol. Mae hyn yn cael ei wella drwy atgoffa yn y dosbarth am dair wythnos derfynol y tymor. |
| | | Gweithio gydag adran Profiadau Myfyrwyr y Swyddfa Academaidd i weithredu'r cynllun peilot NSS i fyfyrwyr sydd ddim fel arfer yn cael eu cynnwys o fewn y boblogaeth | 30 Mehefin 2020 | Bwrdd rhaglenni TystAU a'r Pwyllgor Profiadau Myfyrwyr (PPM) | Cadeirydd y Bwrdd Rhaglenni TystAU gyda'r PIG Cysylltiol (Profiad Academaidd) | Gwell cyfleoedd i fyfyrwyr roi adborth ar lefel rhaglen trwy'r cynllun peilot NSS | Adroddiad i'r PPM | Cwblhawyd y cynllun peilot NSS. Roedd cyfraddau cyfranogi'n isel. Mae cynlluniau gweithredu ychwanegol yn |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | NSS (h.y. Myfyrwyr TystAU). | | | | | | eu lle ar gyfer BA 20/21 er mwyn annog cyfradd gyfranogi uwch. |
| | **Nodweddion a gadarnhawyd** | **Camau i'w cymryd** | **Dyddiad Targed** | **Pwyllgor** | **Gweithredir gan** | **Deilliannau arfaethedig** | **Adroddiad a gwerthusiad** | **Diweddariad statws*** |
| 6 | Y camau a gymerir i fynd i'r afael â materion cadw myfyrwyr mewn ffordd systematig | Parhau â'r ymdrechion parhaus i wella cyfraddau cadw myfyrwyr e.e. cryfhau prosesau derbyn; newid patrymau cyflwyno; gwella cymorth i fyfyrwyr a mecanweithiau cymorth ariannol. | Yn parhau | PPM | Profost (Llundain a Birmingham), Rheolwr Academaidd a Chanolfan | Gwell cyfraddau cadw myfyrwyr | Adroddiad i'r PPM | Mae cyfraddau cadw myfyrwyr yn parhau i wella, ac yn cael eu hadrodd yn ôl. |
| 7 | Cyflwyno symposia yn seiliedig ar raglenni i sicrhau darpariaeth gyson o raglenni ar wahanol safleoedd. | Parhau â gwaith y symposia trwy'r Bwrdd Rhaglenni TystAU sydd newydd ei sefydlu, fydd yn cael ei arwain gan yr Athrofa Rheolaeth ac Iechyd (IMH) | 30 Mehefin 2020 | PSA | Cadeirydd y Bwrdd Rhaglenni TystAU | Gwell cysondeb o ran darpariaeth rhaglenni ar wahanol safleoedd. | Adroddir ar gofnodion a phwyntiau gweithredu'r Bwrdd Rhaglenni TystAU i bob cyfarfod o'r PSA | Mae'r cofnodion bellach yn eitem sefydlog yr adroddir arni i'r PSA. |
| | **Materion eraill a godwyd** | **Camau i'w cymryd** | **Dyddiad Targed** | **Pwyllgor** | **Gweithredir gan** | **Deilliannau arfaethedig** | **Adroddiad a gwerthusiad** | **Diweddariad statws*** |
| 8 | Y nifer sylweddol o honiadau o arfer annheg. Ymateb y Ganolfan fu cynyddu gwybodaeth i | Cymerwyd camau cychwynnol i fynd i'r afael â'r mater hwn. Cynhaliwyd | Mawrth 2020 | PSA | Cadeirydd y Bwrdd Rhaglenni TystAU a'r | Cyfeirnodi gwell gan fyfyrwyr ynghyd â gostyngiad yn y | Adroddir am gynnydd ar y mater hwn i'r PSA trwy | Mae DPP bellach wedi'i gwblhau, ac mae hyfforddi |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | fyfyrwyr am ymddygiad academaidd priodol yn ystod cynefino ac addasu asesiadau fel bod y rhain yn digwydd yn bennaf o fewn y dosbarth a chaniatáu i'r anghysondebau rhwng gwaith a wneir gartref ac yn y Ganolfan fod yn haws eu gweld. | trafodaethau lefel uchel er mwyn cytuno ar strategaeth. Gwnaed dadansoddiad manwl o achosion o gamymddwyn academaidd a ddangosodd mai troseddau cyntaf oedd nifer llethol yr achosion, a bod nifer ohonynt mewn gwirionedd yn enghreifftiau o gyfeirnodi gwael yn hytrach na chamymddwyn academaidd. Bydd y gwaith i leihau'r nifer o achosion o gamymddwyn academaidd yn parhau e.e. trwy barhau i godi ymwybyddiaeth myfyrwyr o ofynion cyfeirnodi a rheoliadau camymddwyn academaidd, a thrwy gynllunio i ddileu camymddwyn academaidd mewn | | | Rheolwr Academaidd a Chanolfan, gyda'r Cyfarwyddwr Profiad Academaidd | nifer o achosion gwirioneddol o gamymddwyn academaidd. | strwythur adrodd y Bwrdd Rhaglenni TystAU. | darlithwyr bellach yn ddigwyddiad tymhorol. Mae trywydd yr achosion AA yn mynd i'r cyfeiriad iawn. Mae cyflwyniad pellach ar lyfrgellwyr cyswllt academaidd ym mis Mawrth / Ebrill '20 wedi gwella sgiliau myfyrwyr ymhellach. Cynlluniwyd y cam terfynol am ddechrau'r BA 20//21 sef Darlithwyr Cymorth Academaidd. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | asesiadau. Darparwyd DPP penodol ym mis Ionawr mewn perthynas â chamymddwyn academaidd a threfnwyd bod gweminar ar gael i'r holl staff yn Rhagfyr 2019. | | | | | | |
| | | Y Bwrdd Rhaglenni TystAU i fonitro ystadegau camymddwyn academaidd yn dymhorol er mwyn dadansoddi cymaroldeb ar draws y safleoedd gwahanol lle cynigir y rhaglen. | Mehefin 2020 | Bwrdd Rhaglenni | Cadeirydd y Bwrdd Rhaglenni TystAU, gyda'r Swyddfa Academaidd | Gostyngiad yn y nifer o achosion o gamymddwyn academaidd ar safleoedd lle mae problemau. | Adroddir ar gofnodion a phwyntiau gweithredu'r Bwrdd Rhaglenni TystAU i bob cyfarfod o'r PSA | Mae'r cofnodion bellach yn eitem sefydlog yr adroddir arni i'r PSA. |
| 9 | Ymddygiad sy'n amharu gan fyfyrwyr mewn rhai dosbarthiadau. Nododd staff sy'n addysgu y cafwyd trafodaeth fuddiol am y problemau ymddygiad hyn mewn symposia staff a bod rhai wedi mynychu sesiynau datblygu staff ar reolaeth dosbarth a fu'n ddefnyddiol. | Parhau i godi ymwybyddiaeth o'r disgwyliadau o ran ymddygiad myfyrwyr a gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr trwy'r Cyngor Myfyrwyr. Parhawyd i ddarparu DPP i staff ar y pwnc hwn. | Mehefin 2020 | PSA | Rheolwr Academaidd a Chanolfan | Gostyngiad yn y pryderon ynghylch ymddygiad sy'n amharu. | Adroddir am gynnydd ar y mater hwn i'r PSA trwy strwythur adrodd y Bwrdd Rhaglenni TystAU. | Mae'r DPP i'r staff wedi bod yn llwyddiant, fel y mae'r hyfforddiant ychwanegol i'r Cynrychiolwyr Myfyrwyr. |